

Meddwl bedyddio eich plentyn?



Pedwar rheswm dros fedyddio:

- 1 **Credu:** Rydych chi'n credu yn Nuw ac yn yr Arglwydd Iesu Grist.
- 2 **Cyflwyno:** Rydych chi am gyflwyno eich plentyn i ofal Duw.
- 3 **Cymorth:** Rydych chi am gael cymorth aelodau'r eglwys i fagu eich plentyn.
- 4 **Caru:** Rydych chi'n caru eich plentyn ac eisiau iddo yntau/hithau ddod i gredu yn Iesu Grist.

Mae bedydd yn fater difrifol iawn. Mae'n rhaid bod yn siwr o'i ystyr a'i werth.

Y Gwasanaeth bedydd

**Lle?
Sut?
Pam?**

Lle?

Os nad oes rhesymau arbennig, yn ystod oedfa yn y capel fel rhan o addoliad yr eglwys leol. Rhywbeth i'w ddatlu gan yr eglwys yw bedydd.

Sut?

Rhoddir dwr ar dalcen y plentyn bach, wedi i'r rhieni addo y byddant yn ei fagu yn ôl y Ffydd Gristnogol.

Pam?

Mae'r dwr yn arwydd o faddeuant Iesu Grist i bobl sy'n credu yndo. Fel y mae dwr yn golchi, y mae Iesu yn ein glanhau o bob pechod a bai. Mae'r bedydd yn arwydd ein bod yn perthyn i Grist trwy ffydd. Wrth fedyddio plant, yr ydym yn dweud ein bod eisiau iddynt ddod yn Gristnogion ryw ddiwrnod.

Beth wedyn?

Eich cyfrifoldeb chi.

Addo

Wrth fedyddio eich plentyn byddwch yn addo gwneud eich gorau i'w fagu yn ôl dysgeidiaeth y Beibl ac esiampl Iesu Grist ei hun.

Addoli

Bydd yn bwysig eich bod yn ymuno yn addoliad yr eglwys leol yn y capel, a rhoi cyfle i'ch plentyn gael addoli mewn oedfa ac yn yr Ysgol Sul.

Addasu

Mae'n bosibl y bydd angen addasu rhai pethau yn eich ffordd o fyw er mwyn sicrhau eich bod yn rhoi pob cyfle i'ch plentyn ddysgu am Iesu.

Cofiwch eiriau Iesu Grist, "Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch a'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn."

Cyn mynd ymhellach

Pedwar rheswm dros beidio bedyddio:

- Ofergoeliaeth:** Nid yw'r bedydd yn golygu y bydd eich plentyn yn fwy diogel neu'n fwy iach.
- Arferiad:** Nid rhywbeth i'w wneud o ran arferiad cymdeithasol yw bedydd.
- Traddodiad:** Nid rhywbeth i'w wneud chwaith am fod eich taid a'ch nain a'ch tad a'ch mam wedi ei wneud o'ch blaen.
- Statws:** Nid rhywbeth i'w wneud er mwyn bod yn barchus neu'n grefyddol.

Cofiwch: Gellir cynnal Gwasanaeth Cyflwyno yn lle Bedydd os nad yw'r rhieni yn siwr o'u cred a'r addewidion. Ac mae croeso i blant i ddod i'r Ysgol Sul a'r capel heb iddynt fod wedi eu bedyddio na'u cyflwyno'n fabanod.

Eisiau gwybod mwy?

Os ydych eisiau trafod bedyddio eich plentyn mae croeso i chi gysylltu â'r Gweindiog. Cewch gyfle i holi rhagor am ystyr y sacrament pwysig hwn, a chyfle i drafod yr hyn y bydd disgwyl i chi ei wneud cyn ac ar ôl yr Oedfa Fedydd.

Dim ond dechrau yw'r Oedfa Fedydd.

Bydd yr eglwys leol a'ch Gweinidog yn falch o wneud pob dim o fewn eu gallu i'ch helpu i roi magwrfa Gristnogol i'ch plentyn bach. Gwnawn ein gorau i gynnig addysg Gristnogol a chymdeithas braf a diogel i'ch plentyn.

Y nôd trwy'r amser fydd dangos cariad Iesu Grist i'r plentyn, a'i helpu i ddod yn Gristion ryw ddiwrnod, wrth iddo/iddi ddod i gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Bendith Duw fo arnoch chi a'ch plentyn.

GOFALAETH DEINIOLEN, LLANBERIS A NANT PERIS
(Cefnywaun, Ebeneser, Capel Coch, Nant Padarn a Rehoboth)

Gweinidog: Y Parchedig John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd LL55 4HB

Ffôn: 01286 872390
E-bost: john.cilfynydd@btinternet.com
Gwefan: gronyn.wordpress.com

Eich plentyn a'r Eglwys



Mae croeso i bob plentyn fod yn rhan o'r eglwys Gristnogol leol, a byddwn yn falch o'ch croesawu atom fel teulu.
